Cefnogi'r Frenhines

Prif ran rôl Tywysog Cymru yw cefnogi Ei Mawrhydi Y Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl. Mae'n dod â phobl o bob rhan o gymdeithas at ei gilydd, ac yn cynrychioli sefydlogrwydd a dilyniant, tynnu sylw at gyflawni, a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth a'r sector gwirfoddol drwy annog a gosod esiampl.

Y DEYRNAS UNEDIG A THRAMOR

Yn ystod y flwyddyn, fe gyflawnodd y Tywysog nifer o wahanol ymrwymiadau ac ymweliadau swyddogol. Roedden nhw'n amrywio o achlysuron seremoniol i gefnogi a chynrychioli'r Lluoedd Arfog wrth eu gwaith ar ran y genedl, ac ymgymryd â theithiau tramor er mwyn hybu buddiannau Prydain. Fe wnaeth Ei Uchelder Brenhinol nifer o ymrwymiadau yn rhai o'r 15 gwlad arall y mae Ei Mawrhydi hefyd yn Frenhines arnyn nhw (y Teyrnasoedd), e.e. Awstralia a Seland Newydd.

Y Deyrnas Unedig

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe gymerodd y Tywysog ran mewn tri Ymweliad Swyddogol â Phrydain: gan Arlywyddion Gwlad Pwyl, De Corea a'r Eidal. Fe gymerodd ran hefyd yn ymweliad yr Arlywydd Jacques Chirac ym mis Tachwedd wrth ddathlu pen 100 mlynedd ers yr Entente Cordiale rhwng Prydain a Ffrainc.

Fe aeth y Tywysog hefyd i nifer o achlysuron a dathliadau mawreddog y wlad, fel agoriad Canolfan newydd Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Gyda'r Frenhines a Dug Caeredin, fe fwynhaodd Ei Uchelder Brenhinol raglen o gerddoriaeth, canu, barddoniaeth a dawns yng nghanolfan newydd £106 miliwn y celfyddydau yng nghalon Bae Caerdydd.

Mae'r llefydd eraill mae Ei Uchelder Brenhinol wedi ymweld â nhw yn ystod y flwyddyn i ddathlu achlysuron hanesyddol yn cynnwys Ynysoedd y Sianel. Yno, ym mis Mehefin, fe helpodd y Tywysog i ddathlu pen 800 mlynedd ers i ynysoedd Jersey a Guernsey benderfynu tyngu llw o deyrngarwch i Goron Lloegr. Tref arall oedd yn dathlu pen 800 mlynedd y llynedd oedd Marlborough yn Wiltshire. Fe ymunodd Ei Uchelder Brenhinol â phobl leol i ddathlu dyfarniad y Siarter Brenhinol gan Frenin John yn 1204.

Mae'r Tywysog yn mynd yn rheolaidd ar ymrwymiadau sy'n cydnabod cyfraniad y gwasanaethau argyfwng i fywyd y genedl. Ym mis Mehefin, fe aeth i Glasgow i gwrdd aelodau o wasanaethau'r heddlu, tân ac ambiwlans a fu'n gwasanaethu ar ôl ffrwydrad difrodus mewn ffatri blastigion a hawliodd naw bywyd. Dywedodd Willie Tullett, cyfarwyddwr clinigol dros feddygaeth damweiniau ac argyfyngau yn The Royal Infirmary, Glasgow, i'w ymweliad ddangos "gwerthfawrogiad o weithredoedd y rheini oedd yn gwasanaethu'r diwrnod hwnnw yn yr ysbyty ac ar safle'r ffrwydrad".

Caiff y Tywysog ei groesawu
â thusw o flodau wrth gyrraedd
Guernsey wrth i Ynys y Sianel
ddathlu pen 800 mlynedd
o deyrngarwch i'r Goron
Drwy gwrteisi Guernsey Press and Star

Ym mis Tachwedd, fe dynnodd y Tywysog sylw at waith gwasanaeth y badau achub pan aeth i Ynys Môn yng Ngogledd Cymru i ddadorchuddio cofeb o Dic Evans o Foelfre, un o ddynion y badau achub. Yn ystod ei yrfa o 50 mlynedd, fe enillodd Mr Evans, a fu farw yn 2001, ddwy fedal aur gan yr RNLI am ei ddewrder. Wrth ddadorchuddio'r gofeb, fe ddywedodd Ei Uchelder Brenhinol y byddai'r cerflun yn fodd o gofláu nid yn unig Dic Evans ond hefyd "ysbryd, dyletswydd, dewrder a gwasanaeth holl ddynion y badau achub."

Mae cydnabod gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn un o nodweddion gwaith y Tywysog, er enghraifft wrth gynrychioli'r Frenhines mewn arwisgiadau. Y llynedd, fe fu'n llywyddu dros chwe arwisgiad ym Mhalas Buckingham. Mae garddwesti'n gyfle i'w Uchelder Brenhinol gwrdd y rheini sydd wedi cyfrannu at fywyd y genedl, ac i ddiolch iddyn nhw am eu gwaith gwerthfawr. Yn ystod y flwyddyn, fe aeth i arddwesti yng ngerddi Palas Buckingham ac ym Mhalas Holyroodhouse yng Nghaeredin.

Dramor, yn cynnwys y Teyrnasoedd a'r Gymanwlad

Bob blwyddyn, mae'r Tywysog yn teithio dramor i gynrychioli buddiannau'r wlad. Mae'r teithiau yma a'i deithiau tramor eraill yn cael eu trefnu ar y cyd â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Llywodraethau'r Teyrnasoedd.

Dechreuodd y Tywysog ei daith yr Hydref 2004 i'r Eidal drwy ymgymryd â chyfres o ymrwymiadau i hyrwyddo'r amrywiaeth a'r dewis eang o fwydydd rhanbarthol sydd ar gael ym Mhrydain. Yn y Salone Del Gusto yn Turin, marchnad fwyd fwyaf y byd, fe gwrddodd Ei Uchelder Brenhinol rhai o'r 50 o stondinwyr sy'n hyrwyddo cynnyrch Prydain. Wedyn, mewn cynhadledd a gafodd ei threfnu gan y *Slow Food Movement,* fe draddododd araith oedd yn rhybuddio rhag costau cymdeithasol ac amgylcheddol bwydydd parod, rhad.

Yn Nhwrci, fe ail-agorodd Ei Uchelder Brenhinol Pera House, Swyddfa Prif Is-gennad Prydain yn Istanbul, bron blwyddyn ar ôl iddi gael ei difrodi mewn cyrch gan derfysgwyr. Wrth ailagor yr adeilad, fe ddywedodd nad oedd y cyrch ym mis Tachwedd 2003 wedi creu hollt rhwng cymunedau. I'r gwrthwyneb, roedd wedi dod â chymunedau at ei gilydd: "Prydeiniwr a Thwrc, Moslem, Iddew a Christion." Mewn rhan arall o Dwrci, fe ddangosodd y Tywysog ei gefnogaeth i'r diwydiant twristiaeth lleol a ddioddefodd yn sgil ymosodiadau gan derfysgwyr yn ystod yr 1990au drwy ymweld â thref hynafol Mardin yn ne-ddwyrain y wlad. Yno, fe ddywedodd Muhlis Hamidi, Pennaeth Diwylliant a Thwristiaeth, ei bod hi'n bwysig "yn nhermau goddefgarwch a deialog i Dywysog Cristnogol ddod yma i dref Fwslimaidd."

Fe aeth rhan olaf taith yr Hydref â'i Uchelder Brenhinol i Wlad Iorddonen. Gan ddilyn rhaglen amrywiol, fe aeth i ganolfan ailsefydlu ar gyfer yr anabl yn Salt, cyn-brifddinas y wlad. Yna fe aeth o gwmpas gwarchodfa natur yn Ajloun gyda Brenhines Rania, ac i wledd gyda Brenin Abdullah II ar ôl Iftar, achlysur torri ympryd yn ystod Ramadan. Ym mis Mawrth 2005, fe aeth y Tywysog i Awstralasia ac Ynysoedd y Môr Tawel fel rhan o'i daith dramor y Gwanwyn. Canolbwynt y daith oedd hybu a chefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol, rhagoriaeth mewn gwasanaeth cyhoeddus ac integreiddio cymunedol. Ymweliad cyntaf ei daith yn Awstralia oedd ag Uned arloesol yn Ysbyty Brenhinol Perth, Gorllewin Awstralia, sy'n arbenigo ar drin llosgiadau. Yno, fe dalodd Ei Uchelder Brenhinol deyrnged i'r gefnogaeth a'r driniaeth a gynigiodd yr ysbyty i'r rheini a ddioddefodd yn sgil ymosodiadau terfysgwyr yn Bali a thrychineb y tsunami.

Yn Alice Springs, fe gafodd y Tywysog gyfle i gwrdd rhai o aelodau gwasanaeth y Doctoriaid Awyr Brenhinol sy'n cynnig gwasanaeth meddygol i'r bobl sy'n byw yn rhannau anghysbell cefn gwlad gwyllt Awstralia. Fe aeth hefyd i ymweld â'r Ganolfan er Technoleg Addas (*Centre for Appropriate Technology*), sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd cymunedau'r diffeithwch drwy ddefnyddio technolegau sy'n amgylcheddol gadarn ac yn ddiwylliannol addas. Yn Seland Newydd, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i ymweld â'r Gofeb Ryfel Genedlaethol yn Wellington gyda'r Prif Weinidog Helen Clark, i ddathlu 10 mlynedd o fodolaeth *The Prince's Trust New Zealand* ac i lansio menter dylunio trefi sydd â'r nod o greu mwy o gymunedau cynaliadwy. Fe aeth i Ffiji ar gyfer rhan olaf taith yr Hydref. Yno, fe gwrddodd Ei Uchelder Brenhinol â chadwraethwyr sy'n gweithio i warchod riffiau cwrel, ac fe aeth i ymweld â'r Sefydliad er Mentrau a Datblygu Gwledig Integredig (*Foundation for Rural Integrated Enterprises N' Development*) i ddysgu sut mae'r fenter yn hybu'r dasg o ennill bywoliaeth mewn ffordd gynaliadwy ymysg grwpiau ar y cyrion.

Ar ben ei deithiau swyddogol, fe wnaeth y Tywysog nifer o deithiau tramor byrrach yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys aros yn Sri Lanca ar y ffordd i Awstralia i weld sut roedd gwaith cymorth y Red Cross yn dod yn ei flaen ar ôl trychineb y tsunami. Fe gafodd gyfle hefyd i fynd i Bosnia ar gyfer achlysur ailagor Pont eiconig Stari Most, sydd wedi'i hailadeiladu ar ôl cael ei difrodi yn ystod y gwrthdaro yn yr hen Iwgoslafia yn yr 1990au.

Y GWASANAETHAU ARFOG

Mae perthynas Tywysog Cymru â'r Gwasanaethau Arfog wedi'i seilio ar bedair thema: hybu rôl y Lluoedd ym mywyd y genedl drwy ymweliadau gweithredol a dyletswyddau seremonïol; canolbwyntio ar broffesiynoldeb a rhagoriaeth yr hyfforddiant; cefnogi lles staff y gwasanaethau a'u teuluoedd; a helpu i gynnal hanes a threftadaeth y Gwasanaethau drwy gysylltau â chatrodau a grwpiau o gyn-aelodau.

Mewn rhagair i apêl codi arian ar gyfer Cofeb y Lluoedd Arfog, oedd yn esbonio pam roedd angen ar y Gwasanaethau am gefnogaeth lawn y genedl, fe ysgrifennodd Ei Uchelder Brenhinol unwaith: "Weithiau, rydyn ni'n disgwyl yn ddiofyn i'n Lluoedd Arfog fod yn broffesiynol, teyrngar ac ymroddedig. Mae'r gwirionedd yn rhagori o dipyn ar ein disgwyliadau. Mae'r dynion a'r gwragedd yma'n fodlon rhoi eu bywydau wrth amddiffyn buddiannau ein cenedl a rhyddid pobl eraill. Eto, rydyn ni'n methu'n llawer rhy aml â chydnabod eu haberth. Rwy'n credu bod dyled gennyn ni i'r bobl yma a lle i ddiolch am bopeth y maen nhw'n ei wneud."

Nid oedd y ddyled yn fwy amlwg yn unlle heblaw gogledd Ffrainc ym Mehefin 2004 pan ymunodd y Tywysog â miloedd o gyn-filwyr i ddathlu pen 60 mlynedd ers y glaniadau D-Day yn Normandi yn 1944. Fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i nifer o wahanol seremonïau i gofio aberth y rheini a frwydrodd ar ran y Cynghreiriaid i ryddhau Ffrainc. Fe gyfrannodd hefyd at raglen deledu genedlaethol arbennig a wnaeth y BBC gan adrodd hanes rôl Catrawd y Parasiwtwyr yn llwyddiant D-Day. Fel Prif Gyrnol y Gatrawd, dywedodd y Tywysog fod parch mawr a diolch y genedl yn ddyledus i ddynion yr Adran Awyrennol ac yn wir i bawb arall a gymerodd ran yn y glaniadau yn Normandi.

Fe gymerodd Ei Uchelder Brenhinol ran mewn digwyddiadau i ddathlu D-Day yn ôl yn y wlad yma ym mis Mehefin. Bu gorymdaith o gyn-filwyr yn Portsmouth a derbyniad i gyn-filwyr yr Alban yn Albert Falls, Stirling. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, y Tywysog oedd y gŵr gwadd ym Mharti Blynyddol Nadoligaidd Cymdeithas y Rhai sydd Heb eu Hanghofio (*Not Forgotten Association*). Yn Ystafelloedd Swyddogol Palas St James's yn Llundain oedd y parti yma, ac un o'r gwesteion oedd Henry Allingham sydd, yn 108 oed, yn gyn-filwr hynaf y wlad. Fe gafodd Cymdeithas y Rhai sydd Heb eu Hanghofio'i sefydlu yn 1920 i roi hwb i ansawdd bywyd staff a chyn-staff anabl a chlwyfedig y gwasanaethau.

Ym mis Medi, fe gymerodd y Tywysog ran yn nigwyddiadau dathlu pen 60 mlynedd ers Brwydr Arnhem. Yn ystod ei ymweliad, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i dderbyniad i anrhydeddu 4ydd Bataliwn Catrawd y Parasiwtwyr. Aelodau'r Gatrawd a ddisgynnodd ar Arnhem yn yr Iseldiroedd ym mis Medi 1944 mewn ymdrech i geisio cipio'r bont bwysig dros afon y dref. Yn y frwydr ddilynol, bu farw 1,750 o aelodau byddinoedd y Cynghreiriaid, ac fe gafodd miloedd eu hanafu neu eu dal. Wrth annerch y cyn-filwyr, fe ddywedodd y Tywysog: "Rhaid i ni beidio byth ag anghofio'r stori ddynol ddwys sydd â gwersi, rhybuddion ac ysbrydoliaeth i ni heddiw."

PENODIADAU MILWROL TYWYSOG CYMRU
MAE TYWYSOG CYMRU'N DAL PENODIADAU FEL IS-LYNGESYDD YN Y LLYNGES FRENHINOL, IS-GADFRIDOG YN Y FYDDIN A MARSIAL AWYR YN YR AWYRLU BRENHINOL. MAE'R TYWYSOG YN CYNNAL PERTHYNAS ARBENNIG Â 12 O GATRODAU'R FYDDIN BRYDEINIG FEL SY'N DILYN:

GWARCHODLU MARCHFILWYR Y FRENHINES
GWARCHODLU BRENHINOL Y MARCHFILWYR
Y GWARCHODLU CYMREIG
CATRAWD Y BRENIN
22AIN GATRAWD SIR GAERLLEON
CATRAWD BRENHINOL CYMRU (24AIN/41AIN TRAED)
Y GWARCHODLU DU (CATRAWD BRENHINOL YR UCHELDIROEDD)
YR UCHELDIRWYR
CATRAWD Y PARASIWTWYR (AR Y DDE)
REIFFLAU BRENHINOL Y GYRCAS
CORFFLU AWYR Y FYDDIN
IWMYN Y FRENHINES EI HUN
MAE'R TYWYSOG HEFYD YN GWEITHREDU FEL COMODOR AWYR ANRHYDEDDUS YR AWYRLU BRENHINOL YN Y FALI AC MAE'N CYNNAL PERTHYNAS ARBENNIG Â LLUOEDD Y GYMANWLAD YNG NGHANADA, AWSTRALIA, SELAND NEWYDD A PHAPUA NEW GUINEA.

Yn ystod y flwyddyn, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i gwrdd staff milwrol ledled Prydain ac mewn rhai gorsafoedd tramor. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys ymweliad ym mis Tachwedd â theuluoedd milwyr y Gwarchodlu Du sy'n gwasanaethu yn Irac. Mae'r Tywysog yn gweithredu fel Prif Gyrnol Y Gatrawd a bu'n sgwrsio â gwragedd a phlant ifanc dros goffi ym mar y gatrawd ym Marics Battlesbury yn Wiltshire. Yn nes ymlaen, bu'n cwrdd aelodau'r fyddin oedd newydd ddod yn ôl o Irac. Mewn ymweliad cynharach â Battlesbury'n gynt yn y flwyddyn, fe wnaeth y Tywysog gwrdd yr un milwyr wrth iddyn nhw baratoi i gael eu gosod yn Irac. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Tywysog wedi gofyn i bob un o'i gatrodau anfon cynrychiolwyr ato i roi gwybod iddo am eu hynt ar ôl dod yn ôl o'u tymor o ddyletswydd yn Irac.

Roedd ymrwymiadau eraill gyda'r Gwasanaethau Arfog yn cynnwys cyflwyno Baner newydd i Sgwadron Rhif 7 yn RAF Odiham yn Hampshire. Yno, fe dalodd y Tywysog deyrnged i hanes hynod y Sgwadron oedd yn cynnwys tymor diweddar o ddyletswydd yn Irac. Cyflwynodd Ei Uchelder Brenhinol Faner newydd hefyd i Fataliwn Gwirfoddolwyr Catrawd y Parasiwtwyr yn Derbyshire.

Ym mis Medi, teithiodd y Tywysog i Sennelager yn yr Almaen i gwrdd aelodau byddin Gwarchodlu Marchfilwyr y Frenhines wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer tymor o ddyletswydd yn Irac. Er mwyn cydnabod gwaith y rheini sy'n gofalu am Filwyr wedi'u hanafu, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol ym mis Ionawr 2005 i ymweld â'r Ganolfan Frenhinol er Meddygaeth Amddiffyn yn Ysbyty Selly Oak Birmingham. Yn yr ysbyty, fe gwrddodd milwyr a gafodd eu hanafu yn Irac, yn cynnwys Lefftenant Dave Conran o Gatrawd y Brenin. Cafwyd wybod gan Lefftenant Conran ar ôl yr ymweliad fod y Tywysog, ar ôl clywed am ei anafiadau, wedi anfon llythyr ato a photel o whisgi Highgrove i "gyflymu'r broses o wella". Fe wnaeth yr un peth i nifer o staff milwrol clwyfedig dros y 30 mlynedd diwethaf.

Yn rhinwedd ei swydd fel Is-Lyngesydd yn y Llynges Frenhinol, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol ym mis Mehefin 2004 i amgueddfa D-Day Portsmouth. Yno, fe gafodd gyfle i gwrdd cyn-filwyr a gymerodd rhan yng nglaniadau Normandi, ac archwiliodd y gwarchodlu o long hyfforddi'r Llynges Frenhinol, HMS Collingswood.

"Weithiau, rydyn ni'n disgwyl yn ddiofyn i'n Lluoedd Arfog fod yn broffesiynol, teyrngar ac ymroddedig. Mae'r gwirionedd yn rhagori o dipyn ar ein disgwyliadau... Rwy'n credu bod dyled gennyn ni i'r bobl yma a lle i ddiolch am bopeth y maen nhw'n ei wneud."

Tywysog Cymru, 2003